# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **22 Gorffennaf 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd N.Goldup-John** |
| **Cynghorwyr**: | M.Harvey, J.Henton, C.Lewis, P.A.Rees, S.H.Reynolds a/ac P.Rogers |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, P.Chivers, D.Griffiths a/ac I.Rees |

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2024 fel cofnod gwir a chywir.

3. **CYNIGION AR GYFER CYNLLUN PARCIO CEIR I AELODAU**

   Darparodd swyddogion drosolwg cryno i'r aelodau o'r adroddiad a gynhwyswyd ym mhecyn yr agenda.

   Gofynnodd yr Aelodau pa amserau y byddai meysydd parcio'r cyngor ar gael i aelodau eu defnyddio.

   Cadarnhaodd y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth y byddai aelodau'n cael defnyddio'r meysydd parcio yn ystod oriau gweithredol y meysydd parcio. Nodwyd bod oriau gweithredu'n gwahaniaethu rhwng meysydd parcio aml-lawr Castell-nedd Port Talbot.

Dywedodd yr aelodau nad yw ardal canmol tref Pontardawe wedi'i chynnwys yn y cynllun.

Holodd yr aelodau sut y penderfynwyd ar gost flynyddol y cynllun i aelodau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth fod y tariff codi tâl yn adlewyrchu cost cyn-COVID y cynllun ac yn ystyried pob cynnydd mewn costau a thariffau codi tâl cyhoeddus yn y cyfamser.

Holodd yr aelodau ynghylch y swm y gallai'r cynllun ei gynhyrchu'n flynyddol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth fod y cynllun wedi'i atal ar hyn o bryd a phe bai pob aelod yn ymuno â'r cynllun y telir amdano, byddai hyn yn codi £15,000 tuag at sefyllfa gyllideb y cyngor.

**Penderfynwyd:** Argymhellir, gan roi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig, fod yr aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Parcio Ceir i Aelodau sy’n atodedig i’r adroddiad yn Atodiad 1.

## 4. DIWEDDARIAD LLAFAR AR GYNNYDD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN

Rhoddodd swyddogion ddiweddariad llafar ar y grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan y pwyllgor mewn perthynas ag aflonyddu, cam-drin a bygythion mewn democratiaeth. Cynhaliodd y grŵp Ymdrin ag Aflonyddu, Cam-drin a Bygythiadau ddau weithdy a sbardunodd drafodaeth a syniadau gwirioneddol i'w datblygu. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau na fu'n bosib ystyried Amrywiaeth mewn Democratiaeth o fewn yr amserlenni a nodwyd yn flaenorol oherwydd amseru'r etholiad cyffredinol sydyn. Cynigiwyd y byddai gwaith yn cael ei wneud i nodi canlyniadau o'r gweithdai Aflonyddu, Cam-drin a Bygythiadau, gyda gweithdai Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael eu haildrefnu yn dilyn gwyliau'r cyngor. Rhagwelir y bydd y ddau grŵp yn gorffen erbyn yr hydref, pan adroddir wrth y pwyllgor a'r cyngor am y syniadau.

Nododd yr aelodau'r diweddariad llafar.

5. **YSTYRIED Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyfeiriodd swyddogion at y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ddinesig sydd ar ddod, a oedd wedi'i chynnwys ym mhecyn yr agenda. Dywedwyd wrth yr aelodau fod cyfarfod ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer 30 Medi i reoli llwyth gwaith y pwyllgor. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddarparu adborth ar unrhyw un o'r eitemau neu godi eitemau i'w hystyried yn y dyfodol.

Cododd yr aelodau bryder ynghylch y ffaith y dylai fod ystyriaeth ehangach wrth gynnal adolygiad o fodel craffu newydd.

Cadarnhaodd swyddogion fod penderfyniad y cyngor i roi model craffu newydd ar waith yn cael ei adolygu ac adroddir wrth y cyngor am y canlyniadau. Gellir cynnwys Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd fel rhan o'r broses adolygu.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd S.Rahaman**
**CADEIRYDD**